



## RHEILFFYRDD FFESTINIOG AC ERYRI

**Gorsaf yr Harbwr • Harbour Station, Porthmadog, LL49 9NF**

facebook.com/festrail **01766 516024** festrail.co.uk

## CYFFRO AR EI FFORDD..!

### Dewch i fwynhau diwrnodiau yr haf gyda ni - gyda'n hymgyrch digwyddiadau i'r teulu 'oll!


Eleni mae hyd yn oed mwy o hwyl i'w gael wrth cyhoeddi ein pecyn 'Haf Llawn Hwyl' gorau eto! Rydym yn ymfalchio cynnig ein thema teuluol mwyaf uchelgeisiol a difyr hyd yma, naill ai am ddim neu am rhodd bychan...

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol, crefftwyr, adlonwyr a cherddorion i gynnig digwyddiadau ar gyfer yr hen a'r ifanc sydd yn amrywio o Sioe Ceir Clasurol i deithiau blaen trên. Rydym hefyd yn cynnig crefftau i'r ifanc a diwrnod o hwyl i'r holl teulu - heb anghofio ein Trên Pysgod a 'Sglodion a nosweithiau miwsig ac bwyd blasus...

Mae cymaint i'w wneud gyda ni ar ein rheilffyrdd. Darllenwch ymlaen am wybodaeth 'Haf Llawn Hwyl' megis calendr a chrynodeb o ddigwyddiadau...

*Manylion pellach ar ein tudalen Facebook, gwefan neu cysylltwch â'r Swyddfa Docynnau ym Mhorthmadog...*

Edrychwch allan am faner 'Haf Llawn Hwyl' yn y gorsafoedd sy'n cymryd ran ac ar ein gwefan. Rydym yn gobeithio eich gweld yn fuan... Peidiwch ag anghofio chwaith - caiff un plentyn teithio am ddim gyda phob oedolyn ar ein trenau..!







## Rock 'n' Roll yn Nhan-y-Bwlch

*Un Noson yn Unig -*
*Nos Iau 21ain Gorffennaf*

Gwisgwch eich 'sneakers' a mwynhewch miwsig rock 'n' roll tra'n samplu bwyd bendigedig wrth i ni croesawu 'nol band y '50au - 'The Del Sharrons'...

Teithiwch i brydferhwch Gorsaf Tan-y-Bwlch i wylio'r band pump person o Swydd Gaerlŷr gyda'i set o Doo Wop, Rockabilly, Rock-n-Roll ac ambell hit or 60au hefyd. Cafwyd noson i'w gofio llynedd..!

Mae eich trên arbennig yn gadael Porthmadog am 19:15. Oherwydd poblogrwydd, mae angen archebu ymlaen llaw ar gyfer y noson - ac mae hefyd yn ddoeth i archebu eich bwyd o flaen llaw. Ffoniwch ein prif Swyddfa Docynnau ar **01766 516024** i wneud eich archeb.

Trên ac adloniant:
Dosbarth Cyntaf -
Oedolyn £26.00 Plentyn £19.00

Dosbarth Arferol -
Oedolyn £22.00 Plentyn £15.00

Barbeciw 'all you can eat' - £9.50
Plât Caws i ddau - £8.50

* *Tatws trwy'u crwyn wedi llenwi a Pwdinau ar gael 'ar y noson'. Diodydd poeth ac oer abar trwyddedig ar gael drwy gydol y noson hefyd.*



## Hwyl ar Ddyddiau Llun

*Pob Dydd Llun -*
*$25^{ain}$ Gorffennaf tan $29^{ain}$ Awst*

Mae 'na gasgen o hwyl i'w gael yng nghorsaf Tan-y-Bwlch eto yr haf hwn gyda Môr-Leidr Ricardo â fydd yn adlonni plant gyda'i brand arbennig o jôcs, triciau hud, straeon, hwyl a gemau - heb anghofio ei bython anwes *Trio*...

Cymerwch rhan hefyd mewn gwaith crefft, gemau a chystadleuaeth lliwio - yn ogystal â maes chwarae i blant o dan 11 oed.
O amgylch yr orsaf mae yna nifer o lwybrau natur ac llyn i'w ymweld yn y goedwig hardd. Hefyd, mae ystod blasus o fyrbrydau a chacennau cartref i'w fwynhau yng nghaffi'r orsaf...

Bydd Môr-Leidr Ricardo yn eich cyfarch o'r trên a'i sioe yn cychwyn am 14:15 - peidiwch a'i fethu..!





## Mawrth y Crefftau Gwyrdd

*Pob Dydd Mawrth -*
*$26^{ain}$ Gorffennaf tan $23^{ain}$ Awst*

Digwyddiadau ecolegol a chrefftau llechi gyda Dale a Leann... Mae gan Blaenau Ffestiniog hanes diwydiannol gyfoethog ac mae'r dref yn fyd enwog am gynhyrchu llechi ac am ei rheilffordd hanesyddol hefyd.

I nodi'r treftadaeth ddeuol yma rydym yn cynnig y cyfle i blant ailgylchu hen lechi o Ceudyllau Llechi Llechwedd trwy peintio a gwaith celf ar blatfform yr orsaf...

Mae'r crefftau gwyrdd eraill sydd ynglwm a'r digwyddiad yn cynnwys plethu a gwehyddu gan ddefnyddio gwlân a ffabrigau wedi'u hailgylchu.
Bydd hefyd crefftau gan ddefnyddio cardfwrdd a phapur yn ogystal â gemau a chystadlaethau plant - i gyd o dan glawr canopi'r gorsaf...





## Trenau Pysgod a 'Sglodion

*Pob Dydd Mawrth a Dydd Iau -*
*26$^{ain}$ Gorffennaf tan 25$^{ain}$ Awst*

Gallwn ni eich temtio gyda'n trenau Pysgod a 'Sglodion..?

Gallan..! Teithiwch gyda ni ar rownd-daith i Flaenau Ffestiniog ar drên 18:05. Gwnewch y gorau o'ch gwyliau wrth trafeilio trwy harddwch naturiol Parc Cenedlaethol Eryri gyda bwyd ffres...

Bydd eich dewis bwydlen ar gael o Fwyty Pysgod Ian ym Mlaenau Ffestiniog. Dewisiwch rhwng pysgod bendigedig, selsig jumbo, cyw iâr neu bastai i gyd-fynd â'ch sglodion blasus...

Dylid archebu lle cyn 15:00 ar y diwrnod - ffoniwch **01766 516024** i gael manylion bwydlen ac i archebu eich tocynnau...





## Hud ar Ddydd Mercher

*Pob Dydd Mercher -*
*27$^{ain}$ Gorffennaf tan 24$^{ain}$ Awst*

Dewch o hyd i hud..!

Wow - bydd Nigel y Dewin yn perfformio cymysgedd o driciau agos a phell yng nghorsaf Tan-y-Bwlch rhwng 11:00 a 16:00 gyda eitemau fel cardiau a darnau arian. Bydd yn cerdded o amglych y gorsaf yn cymysgu gyda'r cyhoedd i greu diwrnodiau arswydus ac hudolus...

Mwy o hwyl - bydd hefyd yn tynnu gwawdluniau am dâl bychan...

Bydd digwyddiadau eraill hefyd ac mae lle chwarae i blant o dan 11 oed.

Peidiwch ag anghofio'r llwybrau natur i Lyn Mair, y cacennau cartref a'r lluniaeth bendigedig yng nghaffi'r gorsaf. Diwrnod gwych..!





## Prynhawniau Crefft ym Mheddgelert

*Pob Dydd Iau a Dydd Gwener -*
*28ain Gorffennaf tan 26ain Awst*

Yn galw ar holl blant creadigol..!

Bydd rhaglen gyffrous o weithgareddau crefft a chelf llawn hwyl yn y babell fawr yng nghorsaf Beddgelert rhwng 11:00-16:00...

Bydd y tabl clai poblogaidd yn ôl i adael dychymyg redeg wrth creu popeth o greaduriaid clai i gerfluniau adeiledig, a photiau i blant...

Bydd hefyd y cyfle i beintio cerrig a llechi ac i weithio gyda papur a chardfwrdd, yn ogystal â lliwio ar y bwrdd du mawr...

Mae'r babell hefyd yn cael ei ddefnyddio fel lleoliad 'pop-up' i arddangos celf a chrefft lleol...





## Jazz yn y Parc

*Pob Nos Iau -*
*28ain Gorffenaf tan 25ain Awst*

Fe ddaw Tan-y-Bwlch yn fyw i sŵn jazz eto yr haf hwn gyda'r perfformwyr hynod poblogaidd, Dr Jazz. Ceir digonedd o lefydd eistedd tu allan a thu mewn ac mae yna wastad y cyfle am ddawns - yn yr awyr agored, gobeithio..!

Fel yr arfer mae yna ddewis o'r BBQ neu blât sawrus caws a bisgedi i'w rannu...

Mae trenau 'Jazz yn y Parc' yn gadael Porthmadog am Tan-y-Bwlch 19:15.

Mae angen sicrhau eich seddi o flaen llaw ac archebwch eich bwyd tra'n prynnu tocynnau - ffoniwch **01766 516024**.

### Trên ac adloniant:

Dosbarth Cyntaf -
Oedolyn £26.00 Plentyn £19.00

Dosbarth Arferol -
Oedolyn £22.00 Plentyn £15.00

Barbeciw 'all you can eat' - £9.50
Plât Caws i ddau - £8.50

* *Tatws trwy'u crwyn wedi llenwi a Pwdinau ar gael 'ar y noson'. Diodydd poeth ac oer abar trwyddedig ar gael drwy gydol y noson hefyd.*




## Diwrnod Vintage 1940au a Sioe Ceir Clasurol

*Dydd Sul, 31$^{ain}$ Gorffennaf*

Treuliwch amser ym Mlaenau Ffestiniog rhwng **10:00-17:00** a phrofi golygfeydd a synau y 1940au...

Glen Miller sydd ar y radio a Phrydain mewn byd rhyfel. Bydd plant mewn masgiau nwy yn aros ar y llwyfan o orsaf Blaenau Ffestiniog, a byddwch hefyd yn gweld ceir a dillad o'r cyfnod - ac yn cwrdd â merched Byddin y Tir..!

Mae yna gyfle hefyd i deithio ar flaen trên stêm hanesyddol ochr yn ochr â blatfform Rheilffordd Ffestiniog...

Mae yna hefyd dawns de, stondinau, cerddoriaeth, cwis, ac llawer mwy. Beth am ymuno yn yr hwyl wrth gwisgo dillad y cyfnod? Mae gwobrau am y gwisgoedd gorau. Dewch yn ôl mewn amser..!





## Teithiau Blaen Trên a Digwyddiadau Penwythnos Hwylus

Dewch i fwynhau taith ar flaen drên stêm hanesyddol. Bydd y gyrrwr injan gyfeillgar yn egluro popeth wrthych am yr injan stêm ac yna gallwch fwynhau taith gyffrous drwy'r orsaf - mae mwy o hwyl ar ôl gorffen yr antur..!

### Gorsaf Caernarfon:

• *Dydd Sadwrn, 13$^{eg}$ Awst* - Teithiau blaen trên, peintio gwynebau ac adloniant plant...
• *Dydd Sadwrn, 20$^{fed}$ Awst* - Teithiau blaen trên, peintio gwynebau a sioe bubbles gwych Dr Zig...

### Gorsaf yr Harbwr, Porthmadog:

*Pob Dydd Sadwrn, 30$^{ain}$ Gorff. tan 27$^{ain}$ Awst*
- Teithiau blaen trên ac adloniant plant...

### Gorsaf Blaenau Ffestiniog

*Dydd Sul, 31$^{ain}$ Gorffennaf*
- Teithiau blaen trên...






## Diwrnod Teulol a Sioe Ceir Clasurol

*Dydd Sul, 21ain Awst*

Ymunwch â ni yng Ngorsaf Dinas ar Rheilffordd Eryri ar gyfer dathliad o geir clasurol, beiciau modur a cherbydau hanesyddol eraill...

Mae'r diwrnod llawn hwyl yma yn cynnwys arddangosfa o dros 60 cerbyd treftadaeth gan gynnwys y bws Whiteways 1955 o Waunfawr...

Mae digon o adloniant i'r teulu gyda gweithgareddau ychwanegol yn cynnwys teithiau blaen trên, siyntio wagenni a reidiau mewn cerbydau hanesyddol...

Tu mewn i'r sied nwyddau bydd stondinau, bwyd poeth ac oer a lluniaeth, yn ogystal â chrefftau a gweithgareddau i blant. Bydd adloniant cerddorol gan y Shoreline Skiffle Band...

...







## Teithiau Cerdded Plas Tan y Bwlch

*Dyddiol - o Gorsaf Tan-y-Bwlch*

Os ydych yn hoffi yr awyr agored ac yn mwynhau teithiau gerdded ddiddorol drwy goetiroedd golygfaol, yna bydd y teithiau cerdded ym Mhlas Tan y Bwlch yn berffaith ar eich cyfer chi a'ch teulu..!

Mae llwybr dwy filltir yn arwain o'r orsaf i plasty yr 18fed ganrif, a adeiladwyd ar gyfer berchennog y chwarel leol. Mae yna canllaw-llwybr am ddim ar gael o caffi'r orsaf sydd yn eich arwain ar daith gerdded hamddenol 45-60 munud o'r rheilffordd - heibio coed hynafol, llyn pefriol a thirlunoedd hardd. Dewch wedyn i Ystafell De Dwyryd wrth ochr y tŷ godidog...

Os hoffech archwilio'r gerddi a gweld rhannau tu mewn i'r tŷ, mae tâl mynediad o £4 i'w dalu yn yr ystafell de...













# Bwyd ar y Trenau

Dewch i wneud y gorau o'ch diwrnod - dewch i fwynhau ein bwydlen newydd ar Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri.

Rydym yn cynnig bwyd a diod rhagorol, ynghyd â gwasanaeth da a golygfeydd hyfryd Eryri.

Teithio ar Reilffordd Ffestiniog..?
Gadewch i'n stiwardiaid cymryd eich archeb ar y bwrdd. Mae gennym dewis da o ddiodydd poeth, oer a alcoholig - yn ogystal a melysion, cacennau a bisgedi.

Ymweld â Rheilffordd Eryri..?
Yn ogystal â'r cynigion uchod mae gennym hefyd prydau ysgafn newydd ac opsiynau lluniaeth. Rhowch gynnig ar ein brechdanau ffres, rarebit, neu i'r rai sy'n fwy anturus - ein cŵn poeth neu byrgyr cig eidion Cymreig.

Dylai hyn plesio eich blasbwyntiau....
... ac am rywbeth ychydig yn fwy - triwch ein opsiynau cwrs newydd, i gyd am brisiau rhesymol..!

Dewiswch o brydau sbeislyd, traddodiadol neu lysieuol a pheidiwch ag anghofio trio un o'r 'Great Orme' beers…

